# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel**

**a fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: 4 Rhagfyr 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Sarah Beasley**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat

(9.00-9.30)

## Cyfarfod cyhoeddus

(9.30-14.15)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9.30)

## 2 Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl: sesiwn dystiolaeth 1

(9.30-10.45) (Tudalennau 1 - 20)

Gofalwyr sy'n Oedolion

-Ann Soley

-Judith Russell

-Sue Rendell

-Chris Kemp-Philp

Briff ymchwil

## Egwyl

(10:45 - 11.00)

## 3 Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl: sesiwn dystiolaeth 2

(11.00-12.15)

Gofalwyr Mwyafrif Byd-eang

-Hazel Lim

-Jusna Begum

-Runa Begum

-Bobbi-Jo Haarhof

-Kalpana Natarajan

## Cinio

(12:15 -13:00)

## 4 Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl: sesiwn dystiolaeth 3

(13.00-14.15)

Gofalwyr Ifanc

-Albie Summers

-Elektra Thomas

-Ffion Haf-Scott

## 5 Papurau i'w nodi

(14:15)

**5.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol: Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)**

(Tudalennau 21 - 27)

**5.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â deiseb P-06-1444 Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd**

(Tudalennau 28 - 29)

**5.3 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â Fframwaith Clefydau Prin y DU**

(Tudalennau 30 - 31)

**5.4 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol mewn perthynas â gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil Tybaco a Fêps**

(Tudalennau 32 - 33)

**5.5 Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynglŷn â degfed cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalen 34)

**5.6 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynglŷn â chyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

(Tudalen 35)

**5.7 Llythyr oddi wrth Gynghrair Iechyd a Llesiant Cydffederasiwn GIG Cymru mewn perthynas â datblygu'r Cynllun Gweithredu Dementia newydd**

(Tudalennau 36 - 37)

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod a'n cyfarfod nesaf ddydd Mercher 10 Rhagfyr

(14.15)

## Cyfarfod preifat

(14.15-15.00)

## 7 Gwella mynediad at gymorth i ofalwyr di-dâl: trafod y dystiolaeth

(14.15-14.20)

## 8 Ymchwiliad i ddyfodol meddygaeth deulu yng Nghymru: trafod y materion allweddol

(14.20-15.00) (Tudalennau 38 - 50)

Papur 1 - Dyfodol Meddygaeth Deulu: Materion Allweddol

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru

Eitem 5.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

## Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Tachwedd 2025)

18/11/2025

Ym mis Hydref 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Mae'r adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... **3**

**Yr ymateb i'r chwe argymhelliad** .......... **4**

Argymhelliad 1 .......... 4

Argymhelliad 2 .......... 4

Argymhelliad 3 .......... 5

Argymhelliad 4 .......... 5

Argymhelliad 5 .......... 6

Argymhelliad 6 .......... 6

# Cyflwyniad

Nod Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), a gyflwynwyd fel Bil Aelod Preifat yn Nhŷ'r Cyffredin, yw rhoi dewis i oedolion sy'n derfynol sâl ofyn am gymorth i ddod â'u bywyd eu hunain i ben, yn amodol ar fesurau diogelu ac amddiffyn sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Mae gwaith y pwyllgor yn hanfodol i sicrhau bod polisi a deddfwriaeth yn destun gwaith archwilio trylwyr, yn arbennig mewn perthynas â materion mor sensitif ac arwyddocaol â marw â chymorth yn wirfoddol.

Rwy'n nodi safbwynt niwtral y pwyllgor ynghylch yr egwyddor o farw â chymorth yn wirfoddol, a'i fod wedi canolbwyntio ar y darpariaethau yn y Bil, sef testun y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Senedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a Noddwyr y Bil er mwyn sicrhau y caiff y setliad datganoli ei barchu ac y caiff buddiannau o ran Cymru eu hystyried wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Pan fo argymhellion y pwyllgor yn ymwneud â materion datganoledig, megis iechyd a gofal cymdeithasol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r Senedd a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y bwriad polisi yn cael ei gyflawni'n effeithiol, ac er budd gorau pobl Cymru.

Diolchaf i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am yr adroddiad hwn ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes). Rwy'n ymateb i argymhellion y pwyllgor isod.

# Yr ymateb i'r chwe argymhelliad

## Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pam ei fod wedi mabwysiadu dull cul wrth benderfynu pa ddarpariaethau o'r Bil ddylai fod yn destun cais am gydsyniad deddfwriaethol, pan fo mater 'iechyd' wedi'i ddatganoli'n helaeth. Gallai dehongliad ehangach, a oedd yn ystyried bod y gwasanaethau yn y Bil yn cael eu darparu'n bennaf mewn lleoliad gofal iechyd gan weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, fod wedi arwain at ystyried bod y rhan fwyaf o'r cymalau yn y Bil yn gofyn am gydsyniad ac felly'n destun gwaith craffu gan y Senedd hon.

Ymateb: Derbyn

Mae asesiad Llywodraeth Cymru o ba gymalau y mae cydsyniad gan y Senedd yn ofynnol ar eu cyfer yn seiliedig ar Reol Sefydlog 29 ac ystyriaeth o ran a yw darpariaethau'r Bil yn rhoi sylw i faterion datganoledig. Er bod iechyd yn faes sydd wedi'i ddatganoli'n helaeth, daeth ein hasesiad i'r casgliad mai dim ond y cymalau a nodwyd yn y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â materion datganoledig ac felly dim ond y rhai hynny y mae cydsyniad gan y Senedd yn ofynnol ar eu cyfer o dan Reol Sefydlog 29.

Nod y Bil yw galluogi oedolion sy'n derfynol sâl i gael cymorth cyfreithlon i ddod â'u bywyd eu hunain i ben. Y prif fecanwaith y mae'r Bil yn ei ddefnyddio i gyflawni hyn yw drwy addasu'r drosedd bresennol yn adran 2 o Ddeddf Hunanladdiad 1961, sydd wedi'i chyfyngu o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rwyf wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda'r Senedd i ddarparu'r wybodaeth y gellir ei rhannu heb beryglu braint broffesiynol gyfreithiol, a hyrwyddo gwaith craffu ar y Bil lle bo hynny'n briodol.

Goblygiadau ariannol – Dim.

## Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o bryd i'w gilydd am gynnydd y gwaith o baratoi ar gyfer goblygiadau gweithredu'r Bil yng Nghymru i'r gweithlu. Dylai hyn gynnwys, ymhlith materion eraill, ystyried cyfrifoldebau cynyddol staff, anghenion hyfforddi ychwanegol, digonolrwydd y gweithlu sy'n siarad Cymraeg (gweler hefyd argymhelliad 4), a chostau cychwynnol.

Ymateb: Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor ynghylch gwaith sy'n ymwneud â'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), a hynny yn unol â threfniadau craffu arferol y Senedd.

Mae'r Bil yn y cyfnod deddfwriaethol ar hyn o bryd, ac er bod ystyriaeth gychwynnol wedi'i roi i oblygiadau posibl o ran gweithredu, mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn gyfyngedig. Os caiff y Bil ei basio gan Senedd y DU ac y caiff y Cydsyniad Brenhinol, bydd y gwaith

gweithredu ledled Cymru a Lloegr yn digwydd dros gyfnod o sawl blwyddyn. Felly, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd cynnal gwaith manwl o ran cynllunio a darparu gwasanaethau a bydd yn dibynnu ar y dyletswyddau a'r swyddogaethau terfynol a nodir yn y ddeddfwriaeth a ddeddfwyd.

Goblygiadau ariannol – Dim.

## Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi ei farn ynghylch a ddylai'r Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol fod yn gallu cynnal ymchwiliadau i faterion heblaw'r rhai sydd wedi'u cyfeirio gan awdurdod cenedlaethol ac i gynhyrchu adroddiadau ychwanegol, gan gynnwys adroddiadau ar feysydd sy'n peri pryder ac ymchwiliadau ar ei liwt ei hun. Dylai hefyd nodi a yw'r Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn galluogi hyn ym marn Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Caiff swyddogaethau a chylch gwaith y Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol eu pennu gan Noddwr y Bil a chânt eu nodi yn y ddeddfwriaeth. Er nad oes gan Lywodraeth Cymru rôl o ran diffinio'r swyddogaethau hynny, nodwn fod paragraff 2 o Atodlen 1 i'r Bil yn nodi *"the Commissioner may do anything the Commissioner consider appropriate for the purposes of, or in connection with, the Commissioner's functions."*

Gellid dehongli'n rhesymol y pŵer cyffredinol eang hwn i gynnwys dechrau ymchwiliadau ar ei liwt ei hun a chyhoeddi adroddiadau ychwanegol ynghylch materion heblaw y rhai a atgyfeiriwyd gan awdurdod cenedlaethol, gan gynnwys adroddiadau thematig neu adroddiadau sy'n seiliedig ar bryderon, pan ystyrir bod gweithgarwch o'r fath yn briodol at ddibenion swyddogaethau'r Comisiynydd neu mewn cysylltiad â'r swyddogaethau hynny.

Goblygiadau ariannol – Dim.

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pa ystyriaeth a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i greu Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol dros Gymru, ac os diystyriwyd hyn, beth oedd y rhesymau dros hynny.

Ymateb: Derbyn

Yn y pen draw, mater i'r Noddwr, fel yr un sy'n cadw disgresiwn dros ddyluniad y Bil, yw strwythur deddfwriaethol rôl y Comisiynydd.

Fodd bynnag, rwyf wedi ystyried creu rôl Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol ar gyfer Cymru. Mae rôl ar y cyd, sy'n cwmpasu Cymru a Lloegr, yn debyg i drefniadau mewn meysydd eraill y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig, ond lle y mae gan Weinidogion Cymru rywfaint o gyfrifoldeb o ran gweithredu a threfniadau ymarferol, er enghraifft, yr Archwilydd Meddygol Cenedlaethol.

Gallai cyflwyno Comisiynydd Marw â Chymorth yn Wirfoddol i Gymru a Lloegr ar wahân greu cymhlethdod, yn arbennig gan fod rhai agweddau ar y rôl yn ymwneud â materion nad ydynt wedi'u datganoli ac y bwriedir iddynt gael eu rhoi ar waith ledled Cymru a Lloegr.

Mae darpariaethau presennol y Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i atgyfeirio materion at y Comisiynydd, y byddai rhaid i'r Comisiynydd felly ymchwilio iddynt ac adrodd arnynt. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â Phrif Swyddog Meddygol Cymru wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a chyflwyno'r adroddiad hwnnw i Weinidogion Cymru i gael eu hymateb. Yn ogystal, rhaid gosod copi o'r adroddiad a'r ymateb gerbron y Senedd.

Mae'r darpariaethau hyn yn cynnig dull gweithredu cymesur ac effeithiol ar gyfer sicrhau y caiff buddiannau Cymru eu hadlewyrchu yng ngwaith y Comisiynydd. Fodd bynnag, bydd sylw pellach yn cael ei roi o ran a oes achos dros ystyried trefniadau ychwanegol i ategu hyn.

Goblygiadau ariannol – Dim.

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ac sy'n gallu darparu gwasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymateb: Derbyn.

Mae'r Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes), fel y'i cyflwynwyd gan Dŷ'r Cyffredin, yn cynnwys darpariaethau penodol i ddiogelu hawliau siaradwyr Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau marw â chymorth. Os caiff y Bil ei basio gan Senedd y DU ac y caiff y Cydsyniad Brenhinol, bydd angen i'r mater o ran sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau Cymraeg angenrheidiol fod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Byddai hefyd angen i waith cynllunio a chyflawni dulliau gweithredu ar gyfer cynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg fod yn unol â'r dyletswyddau a'r swyddogaethau terfynol a nodir yn y ddeddfwriaeth a ddeddfwyd. Felly, os daw'r Bil yn gyfraith, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd ystyried penderfyniadau o ran gweithredu, gan gynnwys cynllunio'r gweithlu a dylunio gwasanaethau.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymell:

Yn ei ymateb i'r adroddiad hwn, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau marw â chymorth yn wirfoddol i bobl nad y Gymraeg na'r Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Ymateb: Derbyn

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau penodol i gynorthwyo pobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys gosod dyletswydd statudol ar ymarferwyr a darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod y ddarpariaeth o ran addasiadau ar gyfer rhwystrau iaith a llythrennedd, gan gynnwys defnyddio cyfieithwyr ar y pryd, yn cael eu gweithredu ar gamau allweddol o'r broses.

Mae'r Bil yn y cyfnod deddfwriaethol ar hyn o bryd. Er bod rhywfaint o ystyriaeth gychwynnol wedi'i rhoi i oblygiadau posibl o ran gweithredu, os caiff y Bil ei basio gan Senedd y DU ac y daw yn gyfraith, mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd ystyried a chyflawni gwaith manwl ynghylch cynllunio a darparu gwasanaethau, gan gynnwys mynediad o ran iaith, yn unol â'r dyletswyddau a'r swyddogaethau terfynol a nodir yn y ddeddfwriaeth a ddeddfwyd.

Goblygiadau Ariannol – Dim

**Y Pwyllgor Deisebau**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Peter Fox AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru

18 Tachwedd 2025

Annwyl Peter

Deiseb P-06-1444 Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd

Cyfarfu'r Pwyllgor Deisebau ar 10 Tachwedd a bu'n ystyried y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Delyth.

Mae'r Aelodau'n ddiolchgar am ymgysylltiad parhaus y deisebydd, ond mae bellach yn mynd y tu hwnt i gwmpas gwaith y Pwyllgor Deisebau, a theimlwyd bod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn gwell sefyllfa i fwrw ymlaen â chwestiynau manwl y deisebydd. Felly cytunwyd i gau'r ddeiseb ac anfon y wybodaeth gan y deisebydd ymlaen at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r manylion llawn am drafodaeth y Pwyllgor ar y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1444 Mae gan ferched Gogledd Cymru yr hawl i gael Gwasanaethau/Clinig Menopos yn Ysbyty Gwynedd

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon ymateb drwy e-bost at y tîm clercio deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Carolyn

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 5.3

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/JMHSC/0600/25

Peter Fox AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddIechyd@senedd.cymru

21 Tachwedd 2025

Annwyl Peter,

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y polisi clefydau prin wedi'i alinio ar draws y Deyrnas Unedig trwy Fframwaith Clefydau Prin y DU (2021-2026). Mae strwythur y Fframwaith yn adlewyrchu pedair blaenoriaeth: (i) helpu cleifion i gael diagnosis terfynol yn gynt; (ii) codi ymwybyddiaeth o glefydau prin ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; (iii) cydgysylltu gofal yn fwy effeithiol; a (iv) gwella mynediad at ofal arbenigol, gan gynnwys triniaethau a meddyginiaethau. Mae hyn yn cael ei ategu gan gynlluniau gweithredu cenedlaethol sy'n amlinellu'r camau y bydd pob gwlad yn eu cymryd i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, megis Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Clefydau Prin.

Mae'r Fframwaith wedi tynnu mwy o sylw at glefydau prin, gan alluogi'r pedair gwlad i rannu gwybodaeth am ddatblygu gwasanaethau, a'r mewnbwn strwythuredig a ganiateir oddi wrth y trydydd sector. Mae manteision amlwg i'r dull gweithredu hwn o ystyried bod nifer yr achosion o glefydau prin unigol yn gyfyngedig. Disgwylir i'r Fframwaith ddod i ben ym mis Ionawr 2026, ac mae swyddogion o bob un o'r pedair gwlad wedi bod yn ystyried sut y gellir cydweithredu ar bolisi clefydau prin ledled y DU yn y dyfodol.

Yn dilyn y trafodaethau hyn ar lefel swyddogol, ysgrifennodd Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU dros Iechyd y Cyhoedd ac Atal at Weinidogion y Llywodraethau Datganoledig ar 26 Awst yn cynnig ymestyn y Fframwaith am gyfnod o flwyddyn. Roedd y cynnig hwn yn adlewyrchu awydd y pedair gwlad i sicrhau bod digon o amser ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned clefydau prin ynghylch cyfeiriad y polisi yn y dyfodol. Roedd hefyd yn cydnabod yr etholiadau seneddol a gaiff eu cynnal yn 2026 yng Nghymru a'r Alban, a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ad-drefnu strwythur GIG Lloegr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ymateb drwy gadarnhau fy nghefnogaeth i’r estyniad o flwyddyn, fel y mae fy nghydweithwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi gwneud. Mae ein cytundeb ar y cyd yn golygu y bydd y Fframwaith a Chynllun Gweithredu Cymru yn parhau tan fis Ionawr 2027. Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd fy rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i roi gwybod ichi am yr estyniad hwn.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

**Sarah Murphy AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: SM/TBVB/2111/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

seneddljc@senedd.wales

Peter Fox AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

seneddhealth@senedd.wales

21 Tachwedd 2025

Annwyl Mike a Peter,

Fel y gwyddoch, ar 31 Hydref, gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (SLCM) mewn perthynas â gwelliannau Llywodraeth y DU i'r Bil Tybaco a Fêps, a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 20 Hydref 2025.

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am fater gweithdrefnol. Mae Cyfnod Pwyllgor y Bil yn digwydd yn yr Uwch-bwyllgor, yn hytrach nag mewn Pwyllgor o'r Tŷ Cyfan. Yn yr Uwch-bwyllgor, dim ond gyda chytundeb unfrydol yr Aelodau y gellir gwneud gwelliannau i Fil. Gan nad oedd cefnogaeth unfrydol i welliannau'r llywodraeth, cawsant eu tynnu'n ôl er mwyn i'r Tŷ eu hystyried eto yn y Cyfnod Adrodd. Mae Llywodraeth y DU yn dal yn hyderus y caiff y gwelliannau technegol hyn eu hailgyflwyno yn y Cyfnod Adrodd ac er nad wyf yn rhagweld unrhyw anawsterau yn hyn o beth, rwyf yn tynnu'r SLCM yn ôl gan y gallai testun y gwelliant gael ei ddiwygio ac rwyf am sicrhau bod y SLCM yn glir ac yn gywir.

Rwy'n parhau i gefnogi'n gryf cynigion polisi a bwriad polisi'r Bil a byddaf yn gweithio'n agos gyda llywodraethau eraill y DU i sicrhau bod dull ymagwedd gyson yn cael ei dilyn gan y pedair gwlad. Disgwylir i'r ddadl ar yr LCM ar gyfer y Bil hwn gael ei chynnal yn y Senedd ar 9 Rhagfyr.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Sarah.Murphy@llyw.cymru
Correspondence.Sarah.Murphy@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf yn dal yn ddiolchgar i'r Pwyllgorau am y gefnogaeth barhaus a'r gwaith craffu manwl ar y ddeddfwriaeth bwysig hon.

Yn gywir,



**Sarah Murphy AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

Eitem 5.5

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

18 Tachwedd 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am ddegfed cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol, a gynhelir ar 20 Tachwedd 2025.

Byddaf yn cadeirio y cyfarfod hwn, a fydd yn cael ei gynnal ar-lein. Disgwylir i'r drafodaeth ganolbwyntio ar Faterion Rhyngwladol, Cydlyniant Cymunedol, a materion cyfredol gan gynnwys Cyllideb nesaf y DU, y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Gonfensiwn Sewel a Deddfwriaeth.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgorau canlynol: Cyllid; Economi, Masnach a Materion Gwledig; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol; Iechyd a Gofal Cymdeithasol, aCydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ôl y cyfarfod, yn unol â'r trefniadau sefydledig.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/JMHSC/0608/25

Mike Hedges MS
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
Senedd

25 November 2025

Dear Mike,

I am writing to inform you an Inter-Ministerial Group meeting for Health and Social Care was held on 25 September 2025, chaired by the UK Government.

The meeting focused on items relating to innovation, elective care and the programme to bring patients from Gaza to the UK for treatment. Other issues raised included neighbourhood health and pandemic preparedness.

A communiqué was produced following the meeting and is available at this link: Interministerial Group for Health and Social Care communiqué, 25 September 2025 - GOV.UK

I am copying this letter to the chair of the Health and Social Care Committee.

Yours sincerely,

**Jeremy Miles AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 5.7

**Peter Fox MS**
Health and Social Care Committee
Senedd Cymru
Cardiff Bay
CF99 1SN

Dear Chair,

**Working Together for a Transformational Dementia Plan in Wales**

We are writing to you as a newly formed sub-group of the Welsh NHS Confederation's Health and Wellbeing Alliance focussing on the development of the new Dementia Action Plan. We are organisations who are united by a shared commitment of improving the lives of people affected by dementia in Wales.

Co-chaired by the Royal College of Speech and Language Therapists and Alzheimer's Society Cymru, this group brings together a wide range of expertise from across health, social care, and the voluntary sector. We are committed to speaking with a collaborative and unified voice to support the development of a renewed Dementia Action Plan; one that is transformational in its ambition and delivery.

We welcome the Welsh Government's commitment to developing a new plan. However, we know that for people living with dementia and their carers, delays in assessments, diagnosis, and support have real consequences. Every day, individuals across Wales face the emotional, practical, and financial challenges of dementia—often without the joined-up support they need. Families are stretched, carers are exhausted, and services are under pressure

There are around 51,000 people living with dementia in Wales and by 2040, this figure is set to increase to almost 70,000 people, with 1 in 3 people born today projected to develop the condition.

Dementia represents one of the biggest health and social care challenges of our time. This is why we believe the new plan represents a huge opportunity to be bold and to deliver real change for people living with dementia and their loved ones. It must be rooted in lived experience, backed by clinical expertise, and provide clear accountability and workforce planning. The new plan must focus on improving quality of life for people living with dementia now and in the future through active engagement in research and innovation, early diagnosis, and delivery of transformative treatments as they emerge.

Our sub-group brings together deep expertise and understanding of lived experience, and we are ready to work with the Welsh Government to shape and deliver a plan that meets the scale of the challenge across prevention; diagnosis treatment and support; social care; end of life care; and research. We will continue to advocate for the voices of people affected by dementia and ensure that progress is visible, measurable, and impactful.

We would welcome the opportunity to meet with you to discuss how we can work together to ensure the new dementia plan delivers real change for people living with dementia across Wales.

To arrange a meeting please email Eleanor.Roberts@Alzheimers.org.uk. We look forward to hearing from you.

Yours sincerely,

**Caroline Walters**

Co-Chair

External Affairs Manager

Royal College of Speech and Language Therapists

**Gemma Roberts**

Co-Chair

National Influencing Manager

Alzheimer's Society

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon